## DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990

## GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (CHANNEL VIEW ROAD, CAERDYDD) 202-

Mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu gwneud Gorchymyn o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("Deddf 1990") i awdurdodi cau'r darnau o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn, ac i ddarparu ar gyfer y darnau o briffordd newydd a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn, yn ogystal ag i wella'r rhannau o briffordd a disgrifir yn Atodlen 3 i'r Hysbysiad hwn. Mae Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod angen cau'r briffordd. Nid awdurdodir cau'r briffordd ond er mwyn gwneud y datblygiad yn unol â'r caniatâd cynllunio a roddwyd o dan Ran 3 o Ddeddf 1990 gan Gyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd ar 19 Hydref 2022 o dan y cyfeirnod 21/01666/MJR a ddisgrifir yn Atodlen 4 i'r Hysbysiad hwn.

Bydd Gorchymyn Cau Priffyrdd (Channel View Road, Caerdydd) 202- ("y Gorchymyn"), os caiff ei wneud, yn peidio â chael effaith os daw'r caniatâd cynllunio mewn cysylltiad â'r datblygiad i ben neu os caiff ei ddirymu.

Yn ystod yr 28 o ddiwrnodau o 25 Tachwedd 2022 ymlaen, gellir edrych ar gopïau o'r Gorchymyn drafft a'r plan a adneuwyd yn rhad ac am ddim yn ystod oriau swyddfa arferol yn Llyfrgell Hyb Grangetown, Havelock Place, Grangetown, CF11 6PA neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1547288.

Rhaid anfon unrhyw wrthwynebiadau yn ysgrifenedig, gan nodi ar ba sail y'u gwneir, i: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ neu drwy e-bost i Trafnidiaeth.YGangenOrchmynion@llyw.cymru erbyn 23 Rhagfyr 2022.

Os ydych yn dymuno gwrthwynebu, cefnogi neu gyflwyno sylwadau, efallai y bydd angen i Lywodraeth Cymru ymgynghori â phersonau a sefydliadau y tu allan i Lywodraeth Cymru. Fel rhan o'r broses ymgynghori, bydd yr wybodaeth yr ydych wedi ei rhoi a'ch data personol yn cael eu trosglwyddo i'r ceisydd/datblygwr ac, os oes angen, i'r awdurdod priffyrdd lleol i'w galluogi hwy i ymateb i chi. Ni fyddwn, fodd bynnag, yn datgelu eich manylion personol ond pan fo hynny'n angenrheidiol er mwyn ymdrin â'r materion a godwyd. Pan na fo gwrthwynebiadau yn gallu cael eu datrys a phan fo'r Gorchymyn yn dod yn destun Ymchwiliad Cyhoeddus ("YC"), caiff pob gohebiaeth ei chopïo i Arolygydd yr YC ac fe'i cedwir yn y Llyfrgell YC lle y bydd ar gael i'r cyhoedd.

## TOWN AND COUNTRY PLANNING ACT 1990

## THE STOPPING UP OF HIGHWAYS (CHANNEL VIEW ROAD, CARDIFF) ORDER 202-

The Welsh Ministers propose to make an Order under section 247 of the Town and Country Planning Act 1990 ("the 1990 Act") to authorise the stopping up of the lengths of highway described in Schedule 1 to this Notice and to provide for the lengths of new highway described in Schedule 2 to this Notice as well as to improve the areas of highway described in Schedule 3 to this Notice. The Welsh Ministers are satisfied that stopping up is necessary, and it will be authorised only in order to enable the development to be carried out in accordance with planning permission granted under Part 3 of the 1990 Act by the County Council of the City and County of Cardiff on 19 October 2022 with reference number 21/01666/MJR described in Schedule 4 to this Notice.

The Stopping Up of Highways (Channel View Road, Cardiff) Order 202- ("the Order"), if made, will cease to have effect if planning permission in respect of the development expires or is revoked.

During a period of 28 days from 25 November 2022 copies of the draft Order and the deposited plan may be inspected free of charge during normal office hours at Grangetown Hub Library, Havelock Place, Grangetown, CF11 6PA or may be obtained free of charge from the address below quoting reference qA1547288.

Objections, specifying the grounds on which they are made, must be sent in writing to Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ or by email to TransportOrdersBranch@gov.wales by 23 December 2022.

Should you wish to object, support or make representations, the Welsh Government may need to consult with persons and organisations outside the Welsh Government. As part of the consultation process, the information you have provided and your personal data will be passed to the applicant/developer and, if necessary, to the local highway authority to enable them to respond to you. We will, however, only disclose your personal details where it is necessary to do so to address the issues raised. Where objections cannot be resolved and the Order becomes subject to a Public Inquiry ("PI"), all correspondence is copied to the Inspector of the PI and is available in the PI library when it becomes publicly available.

Os nad ydych yn dymuno i ddata personol gael ei anfon ymlaen at drydydd parti, dylech nodi pam pan fyddwch yn cyflwyno eich gohebiaeth a bydd Gweinidogion Cymru yn copïo'r sylwadau i'r trydydd parti priodol gyda'r enw a'r cyfeiriad wedi eu dileu. Os bydd YC yn cael ei gynnal, bydd yr Arolygydd yn gweld y sylwadau ond efallai y bydd yn rhoi llai o sylw iddynt o ganlyniad i hyn.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-cau.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**



**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**ATODLEN 1**
**(Bras amcan yw pob mesuriad)**
**Y darnau o briffordd sydd i'w cau**

Darn petryalog ei siâp o briffordd i'r gogledd o'r eiddo o'r enw 245–249 Channel View Road Caerdydd, sy'n mesur 38 o fetrau sgwâr a ddangosir â llinellau sebra ac y rhoddir y cyfeirnod 'B' iddo ar y plan a adneuwyd.

Darn petryalog ei siâp o briffordd i'r gogledd o'r eiddo o'r enw 253 Channel View Road Caerdydd, sy'n mesur 10 metr sgwâr a ddangosir â llinellau sebra ac y rhoddir y cyfeirnod 'C' iddo ar y plan a adneuwyd.

Darn afreolaidd ei siâp o briffordd o amgylch y bloc o eiddo o'r enw 257–263 Channel View Road Caerdydd, ac i'r dwyrain o'r eiddo o'r enw 265–271 Channel View Road Caerdydd, sy'n mesur 376 o fetrau sgwâr a ddangosir â llinellau sebra ac y rhoddir y cyfeirnod 'E' iddo ar y plan a adneuwyd.

Darn afreolaidd ei siâp o briffordd i'r gogledd o'r eiddo o'r enw 243 Channel View Road Caerdydd, sy'n mesur 38 o fetrau sgwâr a ddangosir â llinellau sebra ac y rhoddir y cyfeirnod 'I' iddo ar y plan a adneuwyd.

Darn afreolaidd ei siâp o briffordd i'r de o'r eiddo o'r enw 233 Channel View Road Caerdydd, sy'n mesur 47 o fetrau sgwâr a ddangosir â llinellau sebra ac y rhoddir y cyfeirnod 'L' iddo ar y plan a adneuwyd.

If you do not wish personal data to be forwarded to third parties, you should state why when submitting your correspondence and the Welsh Ministers will copy the representations to the appropriate third parties with the name and address removed and if there is to be a PI, the representations will be seen by the Inspector who may give them less weight as a result.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/stopping-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**



**J SADDLER**
Transport
Welsh Government

**SCHEDULE 1**
**(All measurements are approximate)**
**Lengths of highway to be stopped up**

A rectangle shaped length of highway located north of the properties known as 245-249 Channel View Road Cardiff, measuring 38 square metres shown by zebra hatching and given the reference 'B' on the deposited plan.

A rectangle shaped length of highway located north of the properties known as 253 Channel View Road Cardiff, measuring 10 square metres shown by zebra hatching and given the reference 'C' on the deposited plan.

An irregular shaped length of highway located around the block of properties known as 257-263 Channel View Road Cardiff, and east of the properties known as 265 – 271 Channel View Road Cardiff, measuring 376 square metres shown by zebra hatching and given the reference 'E' on the deposited plan.

A irregular shaped length of highway located north of the property known as 243 Channel View Road Cardiff, measuring 38 square metres shown by zebra hatching and given the reference 'I' on the deposited plan.

An irregular shaped length of highway located south of the property known as 233 Channel View Road Cardiff, measuring 47 square metres shown by zebra

Darn afreolaidd ei siâp o briffordd i'r de-orllewin o'r eiddo o'r enw 233 Channel View Road Caerdydd, sy'n mesur 39 o fetrau sgwâr a ddangosir â llinellau sebra ac y rhoddir y cyfeirnod 'M' iddo ar y plan a adneuwyd.

Darn trionglog ei siâp o briffordd i'r gorllewin o'r bloc o eiddo o'r enw 281–287 Channel View Road Caerdydd, sy'n mesur 8 metr sgwâr a ddangosir â llinellau sebra ac y rhoddir y cyfeirnod 'O' iddo ar y plan a adneuwyd.

Darn afreolaidd ei siâp o briffordd i'r gogledd-orllewin o'r bloc o eiddo o'r enw 281–287 Channel View Road Caerdydd, sy'n mesur 74 o fetrau sgwâr a ddangosir â llinellau sebra ac y rhoddir y cyfeirnod 'Q' iddo ar y plan a adneuwyd.

Darn afreolaidd ei siâp o briffordd i'r dwyrain o'r bloc o eiddo o'r enw 273–279 Channel View Road Caerdydd, sy'n mesur 60 o fetrau sgwâr a ddangosir â llinellau sebra ac y rhoddir y cyfeirnod 'R' iddo ar y plan a adneuwyd.

Darn afreolaidd ei siâp o briffordd i'r dwyrain o'r bloc o eiddo o'r enw 273–279 Channel View Road Caerdydd, sy'n mesur 24 o fetrau sgwâr a ddangosir â llinellau sebra ac y rhoddir y cyfeirnod 'T' iddo ar y plan a adneuwyd.

Darn afreolaidd ei siâp o briffordd i'r dwyrain o'r bloc o eiddo o'r enw 273–279 Channel View Road Caerdydd, sy'n mesur 32 o fetrau sgwâr a ddangosir â llinellau sebra ac y rhoddir y cyfeirnod 'U' iddo ar y plan a adneuwyd.

Darn afreolaidd ei siâp o briffordd i'r dwyrain o'r bloc o eiddo o'r enw 265–271 Channel View Road Caerdydd, sy'n mesur 135 o fetrau sgwâr a ddangosir â llinellau sebra ac y rhoddir y cyfeirnod 'W' iddo ar y plan a adneuwyd.

**ATODLEN 2**
**(Bras amcan yw pob mesuriad)**
**<u>Y darnau o brifford newydd sydd i'w darparu</u>**

Darn afreolaidd ei siâp o briffordd i'r gogledd o'r bloc o eiddo o'r enw 251–263 Channel View Road Caerdydd, sy'n mesur 244 o fetrau sgwâr a ddangosir â dotwaith ac y rhoddir y cyfeirnod 'A' iddo ar y plan a adneuwyd.

Darn afreolaidd ei siâp o briffordd i'r gogledd o'r eiddo o'r enw 243 Channel View Road ac i'r de-orllewin o'r eiddo o'r enw 245 Channel View Road Caerdydd, sy'n mesur 61 o fetrau sgwâr a ddangosir â dotwaith ac y rhoddir y cyfeirnod 'F' iddo ar y plan a adneuwyd.

hatching and given the reference 'L' on the deposited plan.

An irregular shaped length of highway located south west of the property known as 233 Channel View Road Cardiff, measuring 39 square metres shown by zebra hatching and given the reference 'M' on the deposited plan.

A triangle shaped length of highway located west of the block of properties known as 281-287 Channel View Road Cardiff, measuring 8 square metres shown by zebra hatching and given the reference 'O' on the deposited plan.An irregular shaped length of highway located north west of the block of properties known as 281-287 Channel View Road Cardiff, measuring 74 square metres shown by zebra hatching and given the reference 'Q' on the deposited plan.

An irregular shaped length of highway located east of the block of properties known as 273-279 Channel View Road Cardiff, measuring 60 square metres shown by zebra hatching and given the reference 'R' on the deposited plan.

An irregular shaped length of highway located east of the block of properties known as 273-279 Channel View Road Cardiff, measuring 24 square metres shown by zebra hatching and given the reference 'T' on the deposited plan.

An irregular shaped length of highway located east of the block of properties known as 273-279 Channel View Road Cardiff, measuring 32 square metres shown by zebra hatching and given the reference 'U' on the deposited plan.

An irregular shaped length of highway located east of the block of properties known as 265-271 Channel View Road Cardiff, measuring 135 square metres shown by zebra hatching and given the reference 'W' on the deposited plan.

**SCHEDULE 2**
**(All measurements are approximate)**
**<u>Lengths of new highway to be provided</u>**

An irregular shaped length of highway located north of the block of properties known as 251-263 Channel View Road Cardiff, measuring 244 square metres shown by stipple hatching and given the reference 'A' on the deposited plan.

An irregular shaped length of highway located north of the property known as 243 and south west of the property known 245 Channel View Road Cardiff, measuring 61 square metres shown by stipple hatching and given the reference 'F' on the deposited plan.

Darn petryalog ei siâp o briffordd i'r dwyrain o'r eiddo o'r enw 245–249 Channel View Road Caerdydd, sy'n mesur 70 o fetrau sgwâr a ddangosir â dotwaith ac y rhoddir y cyfeirnod 'G' iddo ar y plan a adneuwyd.

Darn petryalog ei siâp o briffordd i'r dwyrain o'r eiddo o'r enw 245–249 Channel View Road Caerdydd, sy'n mesur 32 o fetrau sgwâr a ddangosir â dotwaith ac y rhoddir y cyfeirnod 'H' iddo ar y plan a adneuwyd.

Darn afreolaidd ei siâp o briffordd i'r de-ddwyrain o'r eiddo o'r enw 239 Channel View Road Caerdydd, sy'n mesur 58 o fetrau sgwâr a ddangosir â dotwaith ac y rhoddir y cyfeirnod 'K' iddo ar y plan a adneuwyd.

Darn afreolaidd ei siâp o briffordd i'r de-orllewin o'r bloc o eiddo o'r enw 281–287 Channel View Road Caerdydd, sy'n mesur 44 o fetrau sgwâr a ddangosir â dotwaith ac y rhoddir y cyfeirnod 'N' iddo ar y plan a adneuwyd.

Darn afreolaidd ei siâp o briffordd i'r gorllewin o'r bloc o eiddo o'r enw 281–287 Channel View Road Caerdydd, sy'n mesur 1 metr sgwâr a ddangosir â dotwaith ac y rhoddir y cyfeirnod 'P' iddo ar y plan a adneuwyd.

Darn afreolaidd ei siâp o briffordd i'r gogledd o'r bloc o eiddo o'r enw 281–287 Channel View Road Caerdydd, sy'n mesur 61 o fetrau sgwâr a ddangosir â dotwaith ac y rhoddir y cyfeirnod 'S' iddo ar y plan a adneuwyd.

Darn afreolaidd ei siâp o briffordd i'r gogledd o'r bloc o eiddo o'r enw 273–279 Channel View Road Caerdydd, sy'n mesur 57 o fetrau sgwâr a ddangosir â dotwaith ac y rhoddir y cyfeirnod 'V' iddo ar y plan a adneuwyd.

**ATODLEN 3**
**(Bras amcan yw pob mesuriad)**

**Y darnau o briffordd y gwneir gwelliannau iddi sydd i'w darparu**

Darn petryalog ei siâp o briffordd i'r gogledd o'r eiddo o'r enw 253 Channel View Road Caerdydd, sy'n mesur 4 metr sgwâr a ddangosir â chroeslinellau ac y rhoddir y cyfeirnod 'D' iddo ar y plan a adneuwyd.

Darn afreolaidd ei siâp o briffordd o'r enw Channel View Road Caerdydd, sy'n mesur 696 o fetrau sgwâr a ddangosir â chroeslinellau ac y rhoddir y cyfeirnod 'J' iddo ar y plan a adneuwyd.

**ATODLEN 4**

**Y Datblygiad**

A rectangle shaped length of highway located east of the properties known as 245-249 Channel View Road Cardiff, measuring 70 square metres shown by stipple hatching and given the reference 'G' on the deposited plan.

A rectangle shaped length of highway located east of the properties known as 245-249 Channel View Road Cardiff, measuring 32 square metres shown by stipple hatching and given the reference 'H' on the deposited plan.

An irregular shaped length of highway located south east of the property known as 239 Channel View Road Cardiff, measuring 58 square metres shown by stipple hatching and given the reference 'K' on the deposited plan.

An irregular shaped length of highway located south west of the block of properties known as 281-287 Channel View Road Cardiff, measuring 44 square metres shown by stipple hatching and given the reference 'N' on the deposited plan.

An irregular shaped length of highway located west of the block of properties known as 281-287 Channel View Road Cardiff, measuring 1 square metres shown by stipple hatching and given the reference 'P' on the deposited plan.

An irregular shaped length of highway located north of the block of properties known as 281-287 Channel View Road Cardiff, measuring 61 square metres shown by stipple hatching and given the reference 'S' on the deposited plan.

An irregular shaped length of highway located north of the block of properties known as 273-279 Channel View Road Cardiff, measuring 57 square metres shown by stipple hatching and given the reference 'V' on the deposited plan.

**SCHEDULE 3**
**(All measurements are approximate)**

**Lengths of improved highway to be provided**

A rectangle shaped length of highway located north of the properties known as 253 Channel View Road Cardiff, measuring 4 square metres shown by cross hatching and given the reference 'D' on the deposited plan.

An irregular shaped length of highway known Channel View Road Cardiff, measuring 696 square metres shown by cross hatching and given the reference 'J' on the deposited plan.

Ailddatblygu ac estyn rhan o ystad Channel View ar gyfer hyd at 319 o fflatiau a thai preswyl, hyd at 285 o fetrau sgwâr o arwynebedd llawr manwerthu, gerddi cymunedol sy’n cynnwys rhandiroedd ac ardaloedd picnic, man chwarae ffurfiol ac anffurfiol i blant, tirlunio, llwybrau beicio/llwybrau troed, seilwaith draenio, ffyrdd a chyfleusterau parcio; adfywio man agored cyhoeddus y Marl i gynnwys meysydd chwaraeon newydd/wedi eu gwella, man chwarae i blant, ‘traeth’ newydd, addurniadau dŵr, tirlunio, a llwybrau beicio/llwybrau troed; darparu cyswllt newydd i fysiau/beicwyr/cerddwyr rhwng Channel View Road a South Clive Street a chyswllt newydd i feicwyr/cerddwyr rhwng South Clive Street a Ferry Road; darparu ardal barcio newydd; ynghyd â gwaith cysylltiedig (cedwir pob mater i’w ystyried yn y dyfodol). Gwneir cais am ganiatâd llawn ar gyfer cam cyntaf datblygiad sy’n cynnwys blociau tŵr newydd (8–13 o loriau) a fydd yn darparu unedau llety byw yn y gymuned i 81 o bobl hŷn (dros 55 oed), caffi cymunedol 115 o fetrau sgwâr, gerddi cymunedol sy’n cynnwys rhandiroedd ac ardaloedd picnic, tirlunio, seilwaith draenio, llwybrau troed, ffyrdd, cyfleusterau parcio a gwaith cysylltiedig.

**SCHEDULE 4**

**The Development**

The redevelopment and extension of part of the channel view estate for up to 319 residential apartments and houses, up to 285 square metres of retail floorspace, communal gardens incorporating allotments and picnic areas, formal and informal children's play space, landscaping, cyclepaths/footpaths, drainage infrastructure, roads and parking; the regeneration of the marl public open space to include new/improved sports pitches, children's play space, a new 'beach', water features, landscaping, and cyclepaths/footpaths; the provision of a new bus/cycle/pedestrian link between Channel View Road and South Clive Street and a new cycle/pedestrian link between South Clive Street and Ferry Road; the provision of a new parking area; together with associated works (all matters reserved for future consideration). Full permission is sought for a first phase of development comprising of new tower blocks (8-13 storeys) providing 81 older-persons (over 55s), community-living accommodation units, a 115 square metres community cafe, communal gardens incorporating allotments and picnic areas, landscaping, drainage infrastructure, footpaths, roads, parking and associated works.